
CARERS TRUST WALES



# Pennaeth Materion Allanol (Cymru)
## Pecyn Recriwtio

# Pennaeth Materion Allanol Cymru

**Contract:** Parhaol, amser llawn
**Oriau:** 35 awr yr wythnos
**Cyflog:** £49,000 - £52,000 y flwyddyn
**Lleoliad:** Wedi'i angori i swyddfa Caerdydd. Bydd disgwyl i chi fod yn bresennol yn y swyddfa o leiaf un diwrnod yr wythnos.




## Pam mae'r rôl hon yn hanfodol i'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Mae'r Pennaeth Materion Allanol yn rôl allweddol yn nhîm Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflawni strategaeth materion allanol ddeinamig i sicrhau bod y materion sy'n effeithio ar ofalwyr di-dâl a'r gwasanaethau maen nhw'n dibynnu arnyn nhw yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, y Senedd a phartneriaid statudol allweddol eraill.

Mae ein Pennaeth Materion Allanol yn swydd uchel ei phroffil ac yn llefarydd effeithiol ar ran y sefydliad. Mae'n gweithio ochr yn ochr â'r cyfryngau, y trydydd sector a rhanddeiliaid allweddol eraill i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n effeithio ar ofalwyr di-dâl a'r gwasanaethau maen nhw'n dibynnu arnyn nhw, ac i ennyn cefnogaeth ar eu cyfer.

Drwy'r rôl hon, byddwch yn ganolog i ddatblygu ein cenhadaeth drwy godi proffil a dylanwad Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yng Nghymru, ymgyrchu i wireddu hawliau gofalwyr drwy ddarparu ymgyrchoedd yng Nghymru ac ar draws y DU, a llunio cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

CARERS TRUST WALES

# Prif gyfrifoldebau

## *(nid yw hon yn rhestr gyflawn)*

- Gwrando'n astud a chydweithio â'n Partneriaid Rhwydwaith i nodi, creu a defnyddio cyfleoedd i greu newid deddfwriaethol, polisi ac ymarfer cadarnhaol er budd gofalwyr di-dâl a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi.

- Cyfrannu at lunio a darparu dull strategol ar draws y DU o ymdrin â pholisi, materion cyhoeddus a chyfathrebu allanol, ac arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau strategol a gweithredol yng Nghymru yn y meysydd cyflawni hyn.

- Rheoli tîm Materion Allanol bach, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac ar werthoedd, a chreu diwylliant dysgu cadarnhaol. Mae hon yn swydd ymarferol: byddwch yn arwain ac yn drafftio briffiau polisi, ymatebion i ymgynghoriadau a gohebiaeth allanol eich hun.

- Goruchwylio swyddogaethau polisi, ymchwil, ymgyrchu a chyfathrebu ar gyfer Cymru fel rhan o gymuned o arbenigwyr ledled y DU.

- Gweithredu fel uwch lefarydd ar ran yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr i'r cyfryngau yng Nghymru a gydag uwch lunwyr penderfyniadau, gan greu cyfleoedd i rannu ein prif flaenoriaethau polisi a negeseuon allanol.

- Datblygu rhwydweithiau cryf o randdeiliaid dylanwadol gan gynnwys newyddiadurwyr, gwleidyddion ac uwch arweinwyr mewn awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector.

- Creu cyfleoedd i gynnwys gofalwyr di-dâl yn ein gwaith, gan gynnwys drwy ddarparu gweithgareddau sy'n seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu.

- Cynrychioli'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr ar amrywiaeth o weithgorau mewnol ac allanol cenedlaethol, grwpiau llywio, rhwydweithiau a chynghreiriau i ysbrydoli, hysbysu a sbarduno camau gweithredu ar y materion sy'n effeithio ar ofalwyr di-dâl a gwasanaethau gofalwyr.

- Arwain y gwaith o sicrhau cysondeb brand, tôn llais ac ansawdd yr holl gyfathrebu allanol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

- Rheoli a datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau i gefnogi'r gwaith o ddarparu ein rhaglenni a ariennir, gan gynnwys comisiynu fideos, adnoddau digidol, adroddiadau wedi'u hargraffu, prynu cyfryngau ochr yn ochr â rheoli cyfryngau cymdeithasol Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

# Ein hymgeisydd delfrydol

- Rhannu gwerthoedd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, gan weithio mewn ffordd gynhwysol, hyderus a dewr o fewn tîm Cymru ac ar draws ein sefydliad ledled y DU.
- Gallu datblygu perthnasoedd dibynadwy o fewn Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr - gan weithio ar y cyd ac yn gefnogol gydag arbenigwyr ar draws ein Rhwydwaith.
- Hyder a phrofiad o gynrychioli sefydliad cenedlaethol ar lefel uwch, gan gynnwys gweithio gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd, y cyfryngau ac amrywiaeth o uwch randdeiliaid.
- Hyfedredd i ymgymryd â phob agwedd ar y rôl hon yn gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Profiad o ddylanwadu strategol ar lefel genedlaethol, gan gynnwys gweithio'n uniongyrchol gydag Aelodau'r Senedd, Pwyllgorau'r Senedd a gweision sifil.
- Brwdfrydedd dros feithrin perthynas effeithiol ag amrywiaeth o randdeiliaid a gallu cyfathrebu â chynulleidfaoedd amrywiol yn effeithiol.
- Profiad o ddadansoddi a dylanwadu ar bolisi ar lefel genedlaethol a llunio argymhellion polisi mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n grymuso'r rheini sydd â phrofiad uniongyrchol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- Gallu gweithredu fel llefarydd dwyieithog ar ran yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn y cyfryngau ac mewn digwyddiadau, gan roi safbwynt arbenigol ar y materion sy'n effeithio ar ofalwyr mewn ffordd ddifyr.
- Profiad o ddatblygu briffiau ac adroddiadau effeithiol yn ogystal â chynnwys deinamig ar-lein.
- Gwybodaeth am y materion sy'n wynebu sefydliadau cymorth y trydydd sector a sut mae hyn yn berthnasol i bolisi lleol a rhanbarthol a'r amgylchedd comisiynu yng Nghymru.
- Gallu gweithio gydag asiantaethau allanol i gomisiynu ystod o adnoddau dwyieithog gan gynnwys fideos, animeiddiadau ac adroddiadau.

CARERS TRUST WALES

Rydym yn chwilio am rywun sydd â'r angerdd a'r sgiliau i wneud yn siŵr bod gofalwyr di-dâl yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'r Senedd cyn ac ar ôl etholiadau hollbwysig ym mis Mai 2026.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol brofiad amlwg o ddylanwadu ar gyllid, polisi a deddfwriaeth ar lefel genedlaethol yng Nghymru ar ran sefydliad trydydd sector a bydd yn fedrus o ran gweithio ochr yn ochr â phobl a hynny gydag eglurder a thosturi. Bydd yn hyderus yn comisiynu deunydd digidol ac argraffu dwyieithog effeithiol ar gyfer rhaglenni cenedlaethol, gan ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio dulliau creadigol o gyfathrebu â'n cynulleidfaoedd allweddol yn effeithiol.

Fel sefydliad seilwaith, rydym yn gwerthfawrogi'r gallu i feithrin perthynas gref a dibynadwy â chydweithwyr ar draws rhwydwaith o sefydliadau ledled Cymru. Byddai unrhyw un sy'n ffynnu ar uno a chymell eraill y tu ôl i nod cyffredin i sicrhau effaith ar y cyd yn rhagori yn y rôl hon.

## Sut mae gwneud cais

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy borth recriwtio'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Llwythwch eich CV a'ch datganiad ategol i fyny yn nodi sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf ar gyfer y rôl hon.

Rydym yn hapus i ddarparu ar gyfer unrhyw addasiadau a allai fod gennych a byddwn yn rhannu holl gwestiynau'r cyfweliad ymlaen llaw fel rhan o'n hymrwymiad i gyflogi cynhwysol.

I gael sgwrs anffurfiol neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rôl, cysylltwch â recruitment@carers.org

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** Dydd Llun 12 Ionawr

**Dyddiad disgwyliedig y cyfweliad:** Dydd Mawrth 20 Ionawr